GENI IESU

Wnaeth Mair a Joseff deithio o bentref Nasareth yn Galilea i Fethlehem achos bod Awgwstws, yr Ymerawdwr Rhufeinig, wedi gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r holl Ymerodraeth Rufeinig. Roedd Mair yn disgwyl babi a tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni. Yno, ym Methlehem "cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid."

Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!' Luc 2:11

Rho gylch o amgylch yr anifeiliaid sydd ddim fel arfer yn byw mewn stabl.



Pam fod Mair wedi rhoi ei Mab mewn cafn bwydo anifeiliaid?

Gwna lun o'r math o wely y baset ti wedi ei gynnig i Iesu.

Gwers 4
Geni Iesu

Testun y Beibl: Luc 2:1-20 ac os oes amser Mathew 2:1-18

Adnod allweddol: Luc 2:11

Pwrpas: Bydd y plant yn deall yr hanes ac yn ufuddhau i Air Duw yn llawen.

Nodwch os gwelwch yn dda

Cynlluniwch weithgareddau addas i'r plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ayb.

I Gwers

Cyflwynwch yr hanes yma trwy ddrama syml. [Gallwch gynnwys bob plentyn neu gofyn i rai o'r plant yn unig gyflwyno'r stori.]

Defnyddiwch y testun o Luc 2:1-20 a Mathew 2:1-18.

Dewiswch blentyn neu'r athro i ddarllen yr hanes. Dewiswch blant i chwarae'r rhannau.

Gellid darllen geiriau'r gwahanol gymeriadau o'r Beibl a'r plant yn actio. NEU

Gellid llunio sgets syml efo'r plant, neu ddefnyddio pypedau o'r cymeriadau yn yr hanes.

NEU

Dyma linc i sgets syml ar wefan Beibl.net > Adnoddau i Eglwysi > Nadolig ac Adfent > Dramau a Gwasanaethau > 20 Nadolig – stori a symudiadau (i rai ifanc)

Chwiliwch am Ddrama Nadolig i blant bach ar wefan Beibl.net

II Gweithgareddau

1 Yr Adnod Allweddol

a) Darllenwch yr adnod yn uchel:

Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!' Luc 2:11

b) Eglurwch ystyr yr Adnod Allweddol trwy ddefnyddio rhai o'r cwestiynau yma:

- Pwy oedd Dafydd? (2 Samuel 5:3-4)
- Sut mae Dafydd a'r Arglwydd Iesu yn perthyn? (Mathew 1:1; Luc 3:31)

- Beth oedd “tref y Brenin Dafydd”? (Luc 2:4)
- Pwy ydy’r Achubwr? (Luc 2:11)
- Ar gyfer pwy gafodd yr Achubwr ei eni? (Ioan 3:16)

c) Helpwch y plant i ddysgu’r adnod.

Awgrym:

Dyma gêm i helpu’r plant ddysgu’r adnod. Ysgrifennwch yr adnod ar ddarn mawr o bapur. Dylai’r plant ddarllen yr adnod yn uchel nifer o weithiau. Yna dylai’r athro guddio un gair ar y tro wrth i’r plant adrodd yr adnod gan gynnwys y gair a guddiwyd. Gallant gofio’r adnod yn well trwy wneud hyn. Gellid gofyn i blant gwahanol yn eu tro adrodd yr adnod gan lenwi’r bylchau.

2 Cwestiynau adolygu i’r plant

- Pwy oedd yr ymerawdwr Rhufeinig pan gafodd Iesu ei eni?
- Pam wnaeth Mair a Joseff adael Nasareth a mynd i Fethlehem?
- Lle cafodd yr Achubwr / y Meseia ei eni?
- Sut wnaeth y bugeiliaid ddod o hyd i’r babi?

- O ble daeth y gwyr doeth?
- Pwy oedd Herod?
- Oedd Herod yn falch bod Iesu wedi ei eni?
- Be ydy Achubwr?
- Pam oedd rhaid i’r Achubwr ddod i’r ddaear?

III Diweddglo

Anfonodd Duw ei fab i’r ddaear yn y ffordd mwyaf gostyngedig. Cafodd Iesu ei eni ar gyfer bobl tlawd (roedd yn dlawd o’i enedigaeth) a hefyd ar gyfer bobl cyfoethog (pan gafodd ei eni fe dderbyniodd anrhegion drud fel rhai i frenin). Mae Duw yn dy garu di yn fawr iawn. Mae Iesu eisio bod yn ffrind i ti. Wyt ti eisio dod yn ffrind i Iesu y Nadolig yma a’i wahodd i dy fywyd i fod yn achubwr?